# CA3 Cymraeg – Chwedl Pwyll Pendefig Dyfed

**Gweithgaredd 2**

Mae'r camgymeriadau mewn print bras

**1**

Gwelodd **pwyll** yn syth ei fod wedi gwneud camgymeriad. Roedd y dyn ar gefn y ceffyl yn iawn. Nid **cwn** Pwyll oedd wedi lladd y carw, ond y cŵn gwyn â'r clustiau coch. Aeth Pwyll ati ar unwaith i **ymddiheiro**.

Atebion ac esboniadau:

- Pwyll – mae angen prif lythyren ar gyfer enwau priod
- cŵn – mae angen yr acen grom (to bach) uwchben yr 'ŵ'
- ymddiheuro – camsillafu

**2**

Bu'r ddau yn byw'n llawen yn nheyrnasoedd **eu** gilydd, a neb o holl bobl Annwn na Dyfed yn amau dim o gwbl. Gweithiodd Arawn yn **caled** a rheolodd yn **doeth** dros dir Dyfed, a bu Pwyll yn frenin da yn Annwn. Felly y bu am flwyddyn gyfan.

Atebion ac esboniadau:

- ei gilydd – dyma sydd yn gywir bob tro
- yn galed – mae angen treiglo ansoddeiriau'n feddal ar ôl 'yn'
- yn ddoeth – mae angen treiglo ansoddeiriau'n feddal ar ôl 'yn'


© BBC

**3**

Erbyn hyn, doedd dim byd yn bwysicach ym meddwl Pwyll na dod i wybod pwy o-edd y ferch osgeiddig ar y **geffyl** gwyn, ac erbyn y trydydd diwrnod roedd wedi cael syniad. Doedd dim amdani ond mynd ar ei hôl ei hunan! Ac felly y bu. Pan ymddangosodd y ferch yn y wisg aur a'i hwyneb dan **orchidd** gwyn am y trydydd tro tra oedd Pwyll yn eistedd ar Orsedd Arberth, neidiodd ar gefn ei geffyl gorau a **carlamu** fel y gwynt ar ei hôl.

Atebion ac esboniadau:

- y ceffyl – mae 'ceffyl' yn enw gwrywaidd unigol, felly does dim angen treiglo'n feddal ar ôl y fannod
- dan orchudd – camsillafu
- a charlamu – daw treiglad llaes ar ôl y cysylltair 'a'

 © BBC